

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer
Bethan Roberts
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn rhithiol drwy Zoom ar
Nos Iau 13 Gorffennaf 2023 am 18.30

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Anwen Jones
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd Gareth P Williams

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Mair O Pierce.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Huw Jones, Carwyn Edwards, Lowri Jones a Beca Roberts.

2. Kath McNulty, Cyfoeth Naturiol Cymru

Cafwyd trosolwg manwl o'r datblygiadau torri coed ym Mharc y Bwlch. Dangoswyd cynlluniau/mapiau manwl ac amserlenni ar gyfer sut i gyrraedd y weledigaeth hirdymor a gafodd yr aelodau cyfle i ofyn cwestiynau. Nodwyd fod y cyflwyniad wedi bod yn ddefnyddiol iawn a diolchwyd i Kath McNulty ac Antony Griffiths am fynychu'r cyfarfod. Cytunwyd bydd y Cyngor yn sefydlu is-bwyllgor yn nghyfarfod mis Medi.

Ebost gan Craig Shuttleworth – Cytunwyd bydd y Clerc yn danfon ymateb Kath McNulty at Craig.

3. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai 2023.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

4.1 Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig –

Cadarnhawyd bod Cyngor Gwynedd yn edrych ar fan welliannau yn yr ardal i geisio arafu traffig a bydden nhw hefo gwell syniad o be allwn nhw ei gynnig yn yr wythnosau nesaf. Dim diweddariad hyd yn hyn. Cadarnhawyd fod y ffordd hwn wedi ei gynnwys yn y cynllun '20mya'.

4.2 Llecyn Tir, Bont Tŵr –Cadarnhawyd fod cwmni Savills yn edrych i fewn i'r mater, ac mi fydden nhw yn cysylltu yn ôl yn fuan iawn – ar y gweill.

4.3 Llwybr Rhif 3 – Penderfynwyd y bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod gyda rheolwr y swyddog i drafod y posibilrwydd o newid y categori hwn – ar y gweill.

- 4.4 Drychau traffig, Lon y Grug/Llwybr Main** - Cytunwyd bydd Ian Morgan yn edrych i fewn i'r mater, dim diweddariad hyd yn hyn.
- 4.5 Mainc Pentref Llandygai** – Nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i ariannu fainc newydd ar hyn o bryd. Y Clerc i ail godi'r mater ym mis Hydref 2023 ar ôl i'r ail daliad archeb gael ei dderbyn. Y Clerc wedi holi Stad Penrhyn, dim ymateb hyd yn hyn.
- 4.6 Hysbysfwrdd ger Ysgol Tregarth** –Y Clerc i weld os oes modd atgyweirio'r hysbysfwrdd gwreiddiol – nodwyd y Clerc ei fod yn gael trafferth gael saer coed draw i edrych ar y gwaith. – ar y gweill.
- 4.7 Llwybrau Cyhoeddus** – Adroddwyd fod yr is-bwyllgor wedi cyfarfod yn diweddar. Nodwyd fod y Clerc wedi llunio tendr ddrafft ac wedi llunio mapiau. Cytunwyd bydd y Clerc yn cylchredeg y mapiau i'r holl aelodau. Os oes unrhyw un yn digwydd mynd am dro yn ei hardal, a fyddai bosib iddyn nhw amlygu'r darnau ar y llwybrau sydd angen ei torri.
- 4.8 Swyddog Cynnal** – Y Clerc wedi cyfarfod a'r Swyddog Cynnal i drafod rhaglen waith ac yn y blaen. Nodwyd fod y Swyddog Cynnal bellach hefo tudalen 'facebook', a fod modd adrodd am ardaloedd sydd angen sylw yn uniongyrchol drwy'r dudalen neu ebost, neu drwy'r Clerc.
- 4.9 Seddi Gwag** – Nodwyd fod y Clerc wedi llunio llythyr yn hysbysebu'r sedd wag, cytunwyd bydd yn danfon y llythyr drwy'r post i drigolion yr ardal.
- 4.10 Biniau Baw Ci** – Nodwyd fod y Cyng. Beca Roberts yn gwneud cais am finiau newydd – un yn Sling ac un ar Lon y Grug – ar y gweill.
- 4.11 Arhosfan Bws/'Pull-in Bay' Llys y Gwynt** – Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd gael arhosfan/pull-in bay ger Llys y Gwynt – dim ymateb hyd yn hyn.
- 4.12 Twmpathau cyflymder B4409** – Nodwyd fod y gwaith ar y ffordd hwn wedi gwella'r twmpathau, ac eu bod llawer mwy esmwyth.
- 4.13 Mynedfa Lon Las Ogwen ger Modurdy Pandy** – estynu'r linell wen a gosod 'road studs' coch (Ian Morgan) – ar y gweill.
- 4.14 Bont ar y ffordd B4409 ger Moelyci** – angen arwyddion blaenoriaeth un-ffordd ymlaen (Ian Morgan) – dim diweddariad hyd yn hyn.

5. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Gorffennaf 2023'

Cyflwynwyd: Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru – Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2024-28 – Unigolion i gwblhau'r arolwg. Nodwyd y Cyng. Sian Beidas fod y ddolen Cymraeg ddim yn gweithio, y Clerc i holi.

6. Llyfrgell Lloches Bws Mynydd Llandygai

Adroddwyd y Clerc bod y Swyddog Cynnal wedi darganfod matshys a papur wedi llosgi yn y lloches yn ddiweddar, yn ogystal a bagiau hefo baw ci ynddynt. Nodwyd hefyd fod y lloches bellach yn 'dumping ground' ar gyfer bob math o bethau, ddim yn unig llyfrau. Oherwydd materion iechyd a diogelwch, cytunwyd y Cyngor ei fod yn syniad da ail-leoli'r llyfrgell i rhywle fel yr Neuadd Goffa – y Cyng. Mary Hayes i holi'r pwyllgor os yw hyn yn bosib.

7. Gwaith y mis

Postiau newydd, Mynedfa Bro Syr Ifor – Nodwyd fod Adra wedi gosod postiau concrêt newydd ger mynedfa Bro Syr Ifor i atal bobl rhag barcio ar y gwair. Cytunwyd fod y postiau ddim yn gweddu i'r ardal, ac y byddai gwla blodau neu rhywbeth tebyg wedi

bod yn well. Y Clerc i holi Adra os oes modd rhoid gwlaau blodau neu rhywbeth deiniadol yno.

8. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Ysgol Tregarth a Bodfeurig – Adroddwyd fod Pennaeth newydd wedi gael ei benodi. Mi fydd Mr Gareth Edwards yn cychwyn ei swydd ym mis Medi.

9. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

9.1 Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc hyd yn hyn. Derbyniwyd yr adroddiad.

10. Taliadau

Dim.

11. Penderfyniadau Cynllunio

C18/0767/16/LL

Coed Wern, Glasinfryn
Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig)
sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau
gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer
podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i
gynnwys ffyrdd mewnol, manau parcio,
systemau draenio cynaliadwy ynghyd a
draenio dwr aflan. Tirlunio meddal a chaled
gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac
ymgymryd a gwelliannau i'r goedlan
presennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant
ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol
a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda
pwyntiau gwefru trydan.

Penderfyniad: ar y gweill.

C23/0332/16/DT

26 Llwybr Main, Mynydd Llandygai,
Estyniad llawr gwaelod i gefn y tŷ presennol a
phorth i flaen y tŷ.

Penderfyniad: Caniatwyd gydag amodau.

C23/0337/16/CR

Pen y Llyn, Mynydd Llandegai
Codi lolfa haul ar ochr ty annedd

Penderfyniad: Caniatwyd gydag amodau.

C23/0386/16/LL

Unit 16, Gatway Park Ystâd Ddiwydiannol
Llandygai
Newidiadau arfaethedig i ffasâd blaen yr
adeilad i gynnwys drws mynediad newydd i
gerddwyr a drws caead rholio newydd.

Penderfyniad: Caniatwyd gydag amodau.

C23/0445/16/LL

Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda
Gosod paneli PV ar doeau tri adeilad
presennol

Penderfyniad: Ar y gweill.

C23/0415/16/YA

Parc Y Bwlch Stacking , Parc Y Bwlch Forest,
Mynydd Llandygai
Silff bentyrru newydd yn cael ei chloddio
gerllaw ffordd goedwig bresennol
Penderfyniad: Caniatwyd caniatad ymlaen
llaw.

12. Ceisiadau Cynllunio

C23/0448/16/LL

7 Y Gefnan, Mynydd Llandygai
Dymchwel adeilad bresennol ac ail godi
annedd newydd.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

13. Unrhyw fater brys arall
Dim.